**Y Pwyllgor Cyllid**
—
**Finance Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCyllid@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddFinance@senedd.wales
senedd.wales/SeneddFinance
0300 200 6565

Jeremy Miles AS
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

26 Tachwedd 2021

Annwyl Weinidog,

Y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru)

Diolch am ddod i gyfarfod y Pwyllgor Cyllid ar 24 Tachwedd 2021 i roi tystiolaeth ar oblygiadau ariannol y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) (y Bil).

Yn ystod y sesiwn honno, gwnaethoch gytuno i ddarparu rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor, a byddem yn ddiolchgar pe gallech rannu eich sylwadau ar y materion a ganlyn:

Y costau a briodolir i'r Comisiwn newydd – mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi y bydd y Comisiwn yn rheoli cyllideb o oddeutu £500 miliwn y flwyddyn. A fyddai modd i chi ddarparu manylion ynghylch y risgiau ariannol eraill sy'n gysylltiedig â'r Bil, o safbwynt Llywodraeth Cymru, a hynny yn ôl maes cost, ynghyd â dadansoddiad o sut y cyfrifwyd pob maes cost?

Costau staff yw'r gost fwyaf sy'n wynebu'r Comisiwn newydd. Bydd cyfanswm y costau hyn ychydig yn llai na £13 miliwn y flwyddyn o 2023-24 ymlaen. Wrth roi tystiolaeth, gwnaethoch ddweud mai dim ond £3.3 miliwn o'r costau hynny sy'n gostau newydd, a bod y balans o £9.7 miliwn yn ymwneud â staff presennol HEFCW a Llywodraeth Cymru. Gwnaethoch gytuno i ddarparu dadansoddiad o'r £13 miliwn ar gyfer Llywodraeth Cymru a staff y Comisiwn.

Rhagwelir y bydd costau TG parhaus ar gyfer y Comisiwn newydd yn fwy na £5 miliwn y flwyddyn o 2023-24 ymlaen. Gwnaethoch ddarparu dadansoddiad o'r costau TG a amcangyfrifir mewn pedwar prif gategori: costau datblygu meddalwedd (£0.15 miliwn); costau diogelwch ac ail-ardystio blynyddol (£0.03 miliwn); costau defnyddwyr (£4.28 miliwn); a chostau ymgynghori (£0.69 miliwn) (cyfanswm o £5.15 miliwn). Gwnaethoch awgrymu y byddai angen talu rhai o'r costau sydd wedi'u cynnwys yn y

dadansoddiad ni waeth beth fo’r sefyllfa o ran y broses ddiwygio, yn sgil yr angen i uwchraddio'r systemau presennol. A fyddai modd i chi ddarparu dadansoddiad o’r costau 'busnes fel arfer' a’r costau ychwanegol sy’n gysylltiedig â’r broses ddiwygio? Hefyd, a wnewch chi nodi’r risgiau a allai effeithio ar y costau hyn?

Casglu data – mae'r Bil yn rhoi cyfres o bwerau newydd i'r Comisiwn, gan gynnwys cyflwyno system well ar gyfer casglu, dadansoddi a rhannu data. Nod y drefn newydd hon, a fydd yn effeithiol ac yn gydymffurfiol, fydd sicrhau bod gwybodaeth amserol, hygyrch a pherthnasol am addysg drydyddol yng Nghymru ar gael i bawb sydd ei hangen. Gwnaethoch gytuno i ddarparu enghreifftiau o'r hyn y gallai'r drefn newydd hon o gasglu data ei olygu.

Byddem yn ddiolchgar pe gallem gael eich ymateb i’r materion hyn erbyn 7 Ionawr 2022.

Yn gywir,

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.